Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass Cymru

# Datganiadau Cam-drin Croes neu Wrth-ddatganiadau Cam-drin

Mai 2025



llyw.cymru

# Datganiadau Cam-drin Croes neu Wrth-ddatganiadau Cam-drin

- Mewn achosion pan fydd y ddau riant yn dweud wrthym am gam-drin domestig, gallwch gymhwyso asesiad sy'n seiliedig ar batrymau cyflawnwyr model Safe & Together™ at y ddau riant unigol er mwyn canfod pwy yw'r prif achoswr.
- Bydd hyn yn helpu i bennu a yw digwyddiadau treisgar penodol gan un person yn digwydd fel rhan o batrymau ehangach o orfodaeth a/neu reolaeth niweidiol gan y llall. Avoiding Misidentification in Cases of Cross-Allegations (Safe & Together Institute)

Mae gwrth-ddatganiadau o gam-drin yn gyffredin ymhlith gwasanaethau sy'n ymgysylltu â theuluoedd. Yn aml gall deimlo'n gymhleth ceisio datod y naratifau gwrthwynebol a gyflwynir gan aelodau o'r teulu.

Mae SafeLives[1] yn diffinio gwrth-ddatganiadau fel a ganlyn:

- Dioddefwr a chyflawnwr yn honni mai nhw yw'r dioddefwr ac mai'r rhiant arall yw'r cyflawnwr, boed hynny ar yr un pryd neu fel honiad dilynol mewn ymateb i gael eu hasesu fel y cyflawnwr.
- Mae proses nodi/asesu neu farn gweithwyr proffesiynol yn diffinio'r ddau barti fel naill ai'n gyflawnwr ac yn ddioddefwr, neu asesir mai'r dioddefwr yw'r cyflawnwr. Mae hyn oherwydd eu bod yn ymgorffori ac yn troshaenu'r un themâu a materion yn hytrach na nodi gwahaniaeth clir bob tro.

Yng nghyd-destun cam-drin, gall gwrth-ddatganiadau ymddangos fel a ganlyn:

- Tacteg dylanwadu gan unigolyn sy'n cam-drin, gyda'r nod o reoli naratif dynameg y teulu a gyflwynir i weithwyr proffesiynol a'r llysoedd.
- Efallai y bydd cyflawnwyr wedi cael eu niweidio gan ddioddefwyr-oroeswyr a oedd yn ceisio amddiffyn eu hunain, talu'r pwyth yn ôl neu ddial am batrymau cam-drin/rheoli.
- Efallai y bydd unigolion sy'n cam-drin wedi honni mai nhw yw'r dioddefwr cyn i'r prif ddioddefwr wneud hynny.
- Mae rhai cyflawnwyr yn credu o ddifrif mai nhw yw'r dioddefwyr.

1 Counter allegations | Review of practice guidance – SafeLives

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52047, ISBN digidol 978-1-83715-724-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cwestiynau Ymarfer

- Pa weithredoedd sy'n gysylltiedig â rheolaeth drwy orfodaeth a gyflawnwyd gan y person hwn (gan ystyried yr holl ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael)?
- Pa weithredoedd sy'n gysylltiedig â niwed i'r plant a gyflawnwyd gan y person hwn?
- A fu patrymau tebyg o ymddygiad mewn perthnasoedd blaenorol/presennol â phartneriaid eraill a'u plant neu blant eraill nad ydynt yn blant biolegol i'r unigolyn?
- A oes unrhyw batrymau o drais neu fygythiadau y tu allan i'r lleoliad domestig neu deuluol?
- Beth oedd cyd-destun digwyddiadau penodol? A oes cronoleg o ddigwyddiadau?